# Holiadur Straen Canllaw Trafod

## Rheoli Fersiynau

Mae’r ddogfen hon yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. Gellir dod o hyd i’r fersiynau diweddaraf o’n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y wefan a’r canllawiau perthnasol.

| Fersiwn | Dyddiad Cymeradwyo | Cymeradwywyd gan | Nodiadau / newidiadau |
|---|---|---|---|
| f1.0 | 12/11/2021 | AM/LH | Canllaw Newydd |
| f1.1 | 16/04/2024 | AM | Newid teitl ac adolygu |

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Holiadur Straen - Canllaw Trafod

| 1 | GOFYNION Y SWYDD | Atebion enghreifftiol | Eitemau i'w trafod, a chefnogaeth i'w hystyried os ydi'r sgôr risg yn 3 neu'n uwch. |
|---|---|---|---|
| 1A | Ydych chi'n teimlo y gallwch chi ddefnyddio eich sgiliau a'ch gwybodaeth yn eich gwaith? | Nac ydw | Trafodaeth am y swydd-ddisgrifiad a pha sgiliau sy'n berthnasol. Sut hoffai'r gweithiwr gael ei ch/gefnogi gyda hyn? |
| 1B | A oes rhaid i chi weithio mwy na'ch oriau gwaith contract yn rheolaidd? | Oes | Trafodwch pam fod hyn yn digwydd ac os ydyw'n angenrheidiol, ydyw ar adegau prysur, ac os ydyw a oes modd addasu oriau ar adegau eraill? Trafodaeth i ganfod sut y gellir cefnogi'r gweithiwr gyda hyn h.y. oes modd symleiddio prosesau? A fyddai rhagor o hyfforddiant neu adnoddau yn cefnogi hyn? |
| 1C | Ydych chi'n teimlo bod digon o adnoddau ar gael (amser, pobl ac offer) i'ch galluogi i wneud eich swydd? | Nac ydw | Canfod lle mae'r gweithiwr yn credu mae diffyg adnoddau. Ystyried a ydi'r prosesau presennol yn ddigonol. A oes modd sicrhau bod rhagor o hyfforddiant ac adnoddau ar gael? |
| 1D | Ydych chi'n fodlon gydag unrhyw gyfrifoldebau sydd gennych chi, yn cynnwys eich cyfrifoldeb dros bobl eraill? | Nac ydw | Dylai cyfrifoldebau fod yn unol â'r swydd-ddisgrifiad a manylion am yr unigolyn. Gallai newidiadau i hyn olygu bod angen ail werthuso swyddi i raddfa wahanol. |
| 1E | A oes gennych chi gydbwysedd rhwng eich bywyd a gwaith? | Nag oes | Beth all y gweithiwr wneud i newid hyn? All y cyflogwr wneud unrhyw beth i gefnogi hyn? |
| 1F | A oes rhaid i chi weithio o fewn terfynau amser tynn ac a oes modd eu cyflawni? | Oes | Trafodwch pam fod y rhain yn angenrheidiol ac ystyriwch a oes modd newid amserlenni i leddfu pwysau'r terfynau amser. Oes gan y gweithiwr unrhyw awgrymiadau? |

# Holiadur Straen - Canllaw Trafod

| 2 | CEFNOGAETH GAN REOLWR/PENNAETH A CHYDWEITHWYR | Atebion enghreifftiol | Eitemau i'w trafod, a chefnogaeth i'w hystyried os ydi'r sgôr risg yn 3 neu'n uwch. |
|---|---|---|---|
| 2A | Yn y gwaith, ydych chi'n teimlo bod rhywun yn gwrando arnoch pan fyddwch chi'n mynegi eich barn am faterion sydd yn ymwneud â chi'n uniongyrchol? | Nac ydw | Trafodwch enghreifftiau o hyn gyda'r gweithiwr a thrafodwch sut y gellir cefnogi'r gweithiwr gyda hyn. Sicrhau y cynhelir sesiynau un-i-un yn rheolaidd a'u cofnodi mewn dogfennau perthnasol. |
| 2B | Ydych chi'n fodlon gyda'ch sesiynau adolygu/sesiynau un-i-un a'r adborth gan eich Rheolwr/Pennaeth? | Nac ydw | Canfod pam nad ydi'r gweithiwr yn hapus gyda hyn. Ydi cyfarfodydd un-i-un yn digwydd rheolaidd? Ydi'r dulliau o gyfathrebu yn agored ac yn glir? Cadarnhau'r dulliau o gyfathrebu gyda'r gweithiwr ac unrhyw fforymau cyfathrebu megis mewnrwyd/e-bost/newyddlen/cyfarfodydd tîm/sgyrsiau cymorth. |
| 2C | Ydych chi'n teimlo eich bod yn cael eich cefnogi yn y gwaith? | Nac ydw | Dylai sesiynau un-i-un gychwyn gyda chwestiwn 'Sut wyt ti?' Trafodwch a ydi'r gweithiwr angen cymorth ychwanegol ar hyn o bryd. Trafodwch pa gymorth a chefnogaeth y mae'r gweithiwr yn teimlo nad ydynt yn ei gael. |
| 2D | Ydych chi'n credu y byddech chi'n cael eich trin â thrugaredd ac yn cael eich cefnogi petaech chi'n sôn (neu eich bod yn absennol o'r gwaith) gydag anhwylder sy'n gysylltiedig â straen? | Nac ydw | Gofynnwch pam fod y gweithiwr yn teimlo fel hyn. Ydi'r gweithiwr yn gwybod am Raglen Cymorth i Weithwyr sy'n cael ei ddarparu gan VIVUP? A ydynt yn ymwybodol o'r gefnogaeth Iechyd Meddwl a Lles ar dudalennau LINC neu gwefan Sir Ddinbych i weithwyr?<br>https://www.denbighshire.gov.uk/cy/swyddi-a-gweithwyr/fy-nghyflogaeth/iechyd-meddwl-a-lles/ynglyn-ag-iechyd-meddwl-a-lles.aspx<br>Os yn absennol, ydi'r weithdrefn Presenoldeb yn y Gwaith wedi cael ei weithredu ac a oes cyswllt rheolaidd wedi'i sefydlu a chefnogaeth wedi'i roi i'r gweithiwr? |
| 2E | A oes yna rywun y gallwch chi drafod materion a phroblemau personol yn agored gyda nhw os ydych chi'n dymuno gwneud hynny? | Nag oes | Trafodwch pam bod y gweithiwr yn teimlo fel hyn a thrafodwch ddewisiadau i wella hyn. Hefyd, cyfeiriwch at dudalen Iechyd Meddwl a Lles ar LINC sydd hefyd yn cynnwys manylion VIVUP. |

# Holiadur Straen - Canllaw Trafod

| 3 | EGLURDER SWYDD | Atebion enghreifftiol | Eitemau i'w trafod, a chefnogaeth i'w hystyried os ydi'r sgôr risg yn 3 neu'n uwch. |
|---|---|---|---|
| 3A | Ydych chi'n teimlo bod gennych chi ddigon o amrywiaeth yn y pethau rydych chi'n eu gwneud yn y gwaith? | Nac ydw | Trafodwch y rhesymau pam? A oes hyfforddiant llawn wedi'i roi? Ydi'r swydd yn driw i'r swydd-ddisgrifiad? Gofynnwch i'r gweithiwr ym mha faes y mae angen eglurder. |
| 3B | Ydych chi'n hapus gyda lefel yr hyfforddiant rydych chi'n ei dderbyn ar gyfer eich swydd? | Nac ydw | Gwriwch bod yr hyfforddiant cynefino wedi'i gwblhau a bod y cyfnod prawf wedi bod yn llwyddiannus. Ystyriwch hyfforddiant ychwanegol ac ymestyn y cyfnod prawf os oes angen. Ydi'r gweithiwr yn gwybod pa hyfforddiant sydd ar gael?<br><br>https://www.denbighshire.gov.uk/cy/swyddi-a-gweithwyr/datblygiad-gweithiwr/datblygiad-gweithiwr.aspx |
| 3C | Ydych chi'n deall pwysigrwydd eich gwaith a sut mae'n cyfrannu'n gyffredinol? | Nac ydw | Trafodwch sianeli cyfathrebu megis cyfarfodydd tîm, siartiau'r sefydliad yn dangos y strwythur. |
| 3D | Ydych chi'n deall beth mae pawb eraill yn eich adran/tîm fod i'w wneud? | Nac ydw | Trafodwch sianeli cyfathrebu megis cyfarfodydd tîm, siartiau'r sefydliad yn dangos y strwythur. |

# Holiadur Straen - Canllaw Trafod

| 4 | RHEOLAETH DROS SUT RYDYCH CHI'N GWEITHIO | Atebion enghreifftiol | Eitemau i'w trafod, a chefnogaeth i'w hystyried os ydi'r sgôr risg yn 3 neu'n uwch. |
|---|---|---|---|
| 4A | Ydych chi'n teimlo bod gennych chi ddigon o amrywiaeth yn y pethau rydych chi'n eu gwneud yn y gwaith? | Nac ydw | Gofynnwch i'r gweithiwr pam eu bod yn teimlo fe hyn (dylid ystyried y swydd-ddisgrifiad). |
| 4B | Oes gennych chi rywfaint o reolaeth dros sut rydych chi'n gwneud eich tasgau gwaith? | Nag oes | Trafodwch enghreifftiau o hyn gyda'r gweithiwr (dylid ystyried arferion gweithio diogel). |
| 4C | Allwch chi gymryd amser i ffwrdd yn lle/amser hyblyg am yr oriau ychwanegol rydych wedi'u gweithio? | Na allaf | Trafodwch pam bod angen amseroedd cychwyn a gorffen ar gyfer y rôl a thrafodwch unrhyw hyblygrwydd y gellir ei roi. |
| 4D | Ydych chi'n teimlo bod y tasgau gwaith a roddir i chi yn cael eu trefnu a'u blaenoriaethu'n iawn? | Nac ydynt | Trafodwch enghreifftiau o hyn gyda'r gweithiwr a thrafodwch unrhyw ddewisiadau i gefnogi hyn. |
| 4E | Ydych chi'n gweithio oriau sydd yn amharu ar eich cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith? | Nac ydw | Oes gan y gweithiwr awgrymiadau ynglŷn â sut i oresgyn hyn? |

## Holiadur Straen - Canllaw Trafod

| 5 | NEWID SEFYDLIADOL | Atebion enghreifftiol | Eitemau i’w trafod, a chefnogaeth i’w hystyried os ydi’r sgôr risg yn 3 neu’n uwch. |
|---|---|---|---|
| 5A | Yn eich adran/tîm, ydych chi’n cael clywed beth sy’n digwydd ac ydych chi’n teimlo y gallwch chi ofyn cwestiynau amdano? | Nac ydw | Ystyriwch sut y rhoddir gwybod am y newyddion diweddaraf a digwyddiadau. Ystyriwch newyddion diweddaraf ar ffurf e-bost grŵp. Ystyriwch sut y gall gweithwyr ofyn cwestiynau, cadarnhewch y dull cyfathrebu neu fforymau cyfathrebu pan fo hynny’n berthnasol. |

| 6 | PERTHNASOEDD GWAITH | Atebion enghreifftiol | Eitemau i’w trafod, a chefnogaeth i’w hystyried os ydi’r sgôr risg yn 3 neu’n uwch. |
|---|---|---|---|
| 6A | Ydych chi’n teimlo bod gennych chi berthnasoedd gwaith boddhaol gyda’ch rheolwr/cydweithiwr? | Nac ydw | Trafodaeth i edrych pam ac os gellir gwneud unrhyw beth i gefnogi hyn. Ystyriwch ddigwyddiadau meithrin tîm. |
| 6B | Ydych chi’n teimlo y gallwch chi gyfrannu’n gadarnhaol at eich adran/tîm? | Nac ydw | Gofynnwch pam i’r gweithiwr a gofynnwch am awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir gwella hyn. |